# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION CYFARFOD MAWRTH 2023

| | |
|---|---|
| **MATH O GYFARFOD** | **Cyfarfod Misol** |
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 15fed o Fawrth, 2023** |
| **AMSER** | **7.00y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Capel Rhostryfan** |
| **CADEIRYDD** | **Michelle Williams** |

1. **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd **MW** bawb i'r cyfarfod ac ymestyn croeso arbennig i Dafydd Wyn Jones ac Adam Summers

Yn bresennol heno roedd:
Michelle Williams **(MW);** Jason Hunt **(JH);** Gwilym Williams **(GLW)**; Nerys Evans **(NE);** Gwilym Thomas **(GVT);** Tom Ellis **(TE)**; Dafydd Wyn Jones **(DWJ);** Adam Summers **(AS);** Cyng. Huw Rowlands **(HR)**; Cyng. Arwyn Herald Roberts **(AHR);** ac Gillian Thomas **(y Clerc).**

2. **YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan**:**
Aeron Maldwyn Jones **(AMJ).**

3. **DATGAN BUDDIANT**

Dim wedi ei ddatgan

4. **CADARNHAU COFNODION CHWEFROR 2023 A MATERION YN CODI**

Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan NE gydag JH yn eilio a phawb yn cytuno

**a) LON LLWYN ONN**
Gwneuthmpwyg gais i'r Cyngor Sir lythyru a'r perchennog Cae'r Rhodyn y tir i lanhau y ffoes – ochor ychaf at Rhosgadfan. Ni dderbyniwyd sylwadau pellach.

**b) GW - GOLWG AR Y STRYD DDWY OCHOR O RHOSISAF I ROSTRYFAN**
Ychwanegodd y clerc sylwadau'r aelodau bod tyfiant troedfedd o ochor y clawdd yn arbed y dŵr redeg yn iawn i'r cwyn gwreiddiol. Ni dderbyniwyd sylwadau pellach.

**c) POTELI GWIN GER GLANWERN**
Adroddwyd bod poteli gwin yn cael ei daflu i'r lon a photeli wedi eu torri.
Ni dderbyniwyd sylwadau pellach.

**d) GVT – LLIFOGYDD YN RHEDEG O GAE TŶ HEN AR Y GYFFORDD YN RHOSGADFAN**
Adroddodd AHR ei fod wedi trafod y mater gyda'r gyda'r tîm tacluso oedd yn cynnig bod hwn yn fater sylweddol fwy nac ddisgwylir gyda thrafferthion hefyd yn yr Ysgol a thai Gwelfor. Trafodwyd argymhellion yr aelodau i achos y llifogydd. Cytunodd AHR weithredu ymhellach ar y mater.

**e) MW BINAU GRAENU BRO CADFAN**
Adroddodd AHR ei fod wedi trafod y mater gyda'r tîm tacluso sydd wedi cytuno ail leoli'r binnau fis nesaf.

| | |
|---|---|
| | **f)** **JH – TYLLAU YN Y FFORDD**<br><br>Ail adroddwyd cwyn am dwll yn y briffordd yn Ffrwd Cae Du. Y gwaith yn parhau i fod heb ei wneud, y clerc i gysylltu ymhellach.<br><br>g) **CWYN YFED A GYRRU**<br>Gofynnodd GVT pam nad oedd AHR wedi trafod y mater gyda'r clwb. Esboniodd AHR mae cwyn gan yr heddlu oedd hwn wedi ei dderbyn fis Ionawr gan alwadau cyfrinachol. Rhannodd GVT bryderon bôn y Clwb yn cael ei barddu yn ddiangen. Adroddodd AHR ei fod yn teimlo yn ddyletswydd arno adrodd y gwyn i'r Cygnor. |
| 5. | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | Dim i'w drafod |
| 6. | **MATERION MISOL** |
| | **a)** **SEDDI GWAG Y CYNGOR CYMUNED**<br>Croesawodd yr aelodau Dafydd Wyn Jones sydd wedi ei gyfethol ar gyfer sedd Rhostryfan ac Adam Summers sydd wedi ei gyfethol ar gyfer sedd Rhosgadfan.<br>Y clerc i rannu'r Cod Ymddygiad a rheolau a pholisïau'r Cyngor.<br><br>**b)** **TORRI COED LEIN BRYNGWYN**<br>Rhannodd y clerc ddyfynbris gan Morris Williams. Cytunwyd I barhau gydag Wyn Williams<br>Cynigiodd GVT bod y Cyngor yn cysidro creu contract arwahan i gontract y llwybrau ar gyfer lein Bryngwyn yn 2025, cytunodd yr aelodau i'w drafod ymhellach bryd hynny.<br><br>**c)** **MYNWENT CEFNFAES**<br>Adroddodd y clerc bod y contractwr wedi cytuno ail hadu a chlirio llanast y tyrchod yn y gwanwyn<br>Adroddodd ymhellach bod y gadair oedd ar ei hochor am gyfnod o ddiwrnod wedi ei ail lleoli.<br>Cytunwyd i ohirio trafod y materion canlynol tan Gyfarfod Pwyllgor y Fynwent ddydd Mercher nesaf.<br><br>• Llwybrau – gordyfiant<br>• Ffens rownd gorffwyser plant<br>• Archebu tir ychwanegol<br>• Sefydlu plac yn gorffwyser plant<br><br>**a)** **CEISIADAU AM NAWDD**<br>Cytunwyd i ohirio'r mater tan fis nesaf - Pwyllgor cyllid i drafod awr cyn y cyfarfod.<br><br>**b)** **CAMFA HEN GASTELL, LLANWNDA**<br>Derbyniwyd gohebiaeth gan Mr G. Williams o Ddolydd gyda phryderon am y gamfa ger Hen Gastell yn Llanwnda, mae pryderon yr aelodau eisoes wedi ei hadrodd i'r swyddog llwybrau gyda dim llawer wedi ei wneud. Derbyniwyd ymateb i bryderon Mr Jones bod y Swyddog Llwybrau bellach wedi bod mewn cyswllt hefo asiantaeth y 'Trunk Roads. Gobeithiodd dderbyn cadarnhad nawr o bwy sydd fod i gymerid cyfrifoldeb dros y dodrefn llwybrau cyhoeddus perthnasol ar y briffordd yma. Nid oedd gohebiaeth bellach wedi ei dderbyn can y swyddog, Mr Jones wedi gyrru blaen ei ohebiaeth I Siân Gwenllïan I roi hwb i bethau.<br>Derbyniwyd argymhellion gan yr aelodau i leoli 'kissing gate' yn hytrach na chamfa. Y clerc i'w adrodd i'r Swyddog.<br><br>**c)** **MARCHOGAETH AR LON EIFION**<br>Derbyniwyd gohebiaeth i gŵyn y clerc gan Swyddog y Llwybrau yn cadarnhau ar hyn o bryd does dim hawl i farchogaeth ar Lon Eifion yn Llanwnda. Ar y funud mae marchogaeth wedi ei gyfyngu i'r rhan sydd wedi ei leoli rhwng Bryncir a Penygroes. Er hynny mae astudiaeth ar y gorwel i mewn i farchogaeth ar Lon Eifion, ar y cyd hefo cynllun ail arwyddo gan gynnwys Cod Ymddygiad Newydd.<br>Adroddodd y clerc ei bod wedi ymateb gyda dymuniad y cyngor i adrodd ei bod yn teimlo'n gryf ni ddylid marchogaeth ar Lon Eifion. |


*Ffon / Tel: 07979 438 307*
*E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

| | |
|---|---|
| | **d)** **GWEFAN Y CYNGOR**<br>Adroddodd y clerc ei bod bellach wedi cael trafodaeth gyda Chyfrifiaduron Whitten oedd yn adrodd bod y wefan wedi ei ddileu yn gyfan gwbl. Roedd hyn o ganlyn darparwyr y hosting yn diflannu dros nos. Roedd wedi cynnig sefydlu gwefan newydd ar ddim cost i'r Cyngor. Nodwyd mai sgerbwd i wefan fydd hyn gan nad oedd back up wedi ei wneud ganddo o'r dogfennau.<br>Y clerc i ofyn am iawn dal am 4 mis o gostau'r hosting. Y clerc hefyd i wneud ymholiadau ar gostau hosting gydag Ionos.<br><br>**a)** **HYFFORDDIANT**<br>Rhannwyd darpariaeth hyfforddiant Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru hyd at ddiwedd Mawrth<br>Ni dderbyniwyd cais i fynychu |
| 7. | **ADRODDIADAU** |
| | **a)** **CYNG. HUW ROWLANDS**<br><br>Pwyllgor Apêl<br>Bore Coffi Ysgol Rhostryfan wedi bod yn llwyddiannus gyda £447 wedi ei hel, targed y gymuned wedi ei gyrraedd gyda chyfraniad y Cyngor Cymuned.<br><br>Ysgol Felinwnda<br>Bydd y Cabinet yn cyfarfod mewn pythefnos i drafod dyfodol yr Ysgol - Adroddodd HR mae 8 disgybl sydd yn yr ysgol eleni gydag amcanion o 5 y flwyddyn nesaf.<br>Gofynnodd TE pan mad oedd y Cyngor Cymuned wedi derbyn gohebiaeth am hyn, Adroddodd HR buasai rhaid ymgynghori gyda 10 disgybl yn mynychu ond dim gyda 8, cytunodd i rannu sylwadau'r aelodau.<br><br>Arolwg parcio Ysgol Rhostryfan<br>HR am drafod ymhellach gyda'r Cyngor Sir<br><br>Bin halen wrth Fro Gilbert<br>HR am wneud cais i'r Cyngor Sir<br><br>Digwyddiad Bro Lleu<br>Digwyddiad Cyngor Gwynedd I ddarganfod gofalwyr gofal i'r ardal - dim llawer o ddiddordeb<br><br>**b)** **CYNG. ARWYN HERALD ROBERTS**<br><br>Tîm tacluso - (bydd yn trefnu cyfarfod neilltuol gydag Adra)<br>Trefniadau mewn lle i wneud gwaith ar:<br>• problem gordyfiant ar strydoedd<br>• Glanhau arwyddion stryd<br>• Glanhau graffiti o gysodfannau<br>• Glanhau gordyfiant o gefn Clwb Mountain Rangers a'r Maes Parcio<br>• Ail leoli bin baw ci<br><br>Cynllun Bwyd Canolfan y Fron -<br>Adroddodd am lwyddiant y cynlyn a gobeithiodd am fwy o ddiddordeb<br><br>Cyfarfod Costau Byw Ysgol Rhosgadfan<br>Adroddodd am lwyddiannau'r cyfarfod. Wyth mudiad yn bresennol.<br>Cyfarfod pellach yr wythnos nesaf yng Ngharmel<br><br>Baw ci -<br>Adroddodd bod y Cyngor Sir ar ei gais wedi gosod arwyddion yn Rhosgadfan, bydd biniau newydd yn cael ei lleoli yn fuan ar gost y Cyngor Sir. |

| | |
|---|---|
| | Gôr Yrru<br>Data yn prysur gael ei gasglu mewn tri lleoliad yn y gymuned gyda bwriad lleoli fan gwarchod yn ddibynnol ar y data.<br>Bwriad i wneud safleoedd saffach i barcio o flaen yr Ysgol yn Rhosgadfan a rheoli traffic wedi ei dderbyn-bydd yn adrodd i'r Cyngor ymhellach wedi iddo dderbyn mwy o wybodaeth.<br>Cais i ostwng y terfyn cyflymder am y Fron I 40 m.y.a. wedi ei wneud.<br><br>Gan fod rhan helaeth o'r cyfarfod wedi mynd yn trafod adroddiadau'r Cynghorwyr Sir gofynnodd y clerc os oedd posib iddynt yrru diweddariadau am eu gwaith blaen llaw'r cyfarfod Iddi eu rhannu gyda'r aelodau i gadw cyfnod y cyfarfod yn rhesymol. Cytunodd y Cynghorwyr. |
| 8. | **MATERION ARIANNOL** |

**a)** **CYSONIAD**

Cymeradwywyd y cysoniad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **28.03.22** | **CYFRIF CYFREDOL** | | **£9,321.80** |
| **29.03.22** | **CYFRIF CADW** | **+** | **£63,343.51** |
| **01.04.22** | **TALIADAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC** | **-** | **£2,133.00** |
| **2022/2023** | **GWARGED** | **+** | **£3,338.76** |
| | | **=** | **£73,871.07** |

**I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC**

-　　-

**CYFRIF CYFREDOL - 29 o Ionawr i 28 o Chwefror 2023**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Balans Agoriadol | | £14,332.21 |
| | Derbyniadau | **+** | £0.00 |
| | Gwariant | **-** | £1,465.30 |
| | Balans Cau | **=** | **£12,866.91** |

**CYFRIF CADW - 31 o Ionawr i 27 o Chwefror 2023**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Balans Agoriadol | | £63,433.87 |
| | Derbyniadau | **+** | £0.00 |
| | Gwariant | **-** | £0.00 |
| | Balans Cau | **=** | **£63,433.87** |
| | | **=** | **£76,300.78** |

**LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS AR Y DATGANIADAU**

-

| | | | |
|---|---|---|---|
| **22.02.23** | G. Jones | **101687** | £55.00 |
| | | **=** | **£55.00** |

**LLAI TALIADAU I'W CYMERADWYO 15.03.23**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | - | - | - |
| **22.02.23** | Zurich Yswiriant | **101689** | £1,528.21 |
| **15.03.23** | G. Thomas | **101690** | £656.50 |
| **15.03.23** | Morris Williams, Cefn Gwlad | **101691** | £190.00 |
| | | **=** | **£2,374.71** |
| **CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON FELLY** | | **=** | **£73,871.07** |

| | |
|---|---|
| 9. | **GOHEBIAETH** |
| | **a)** **NEWYDDLEN MIS MAWRTH GWASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD GWYNEDD.**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau I'w gweithredu<br><br>**b)** **HWB TÎM TACLUSO 'ARDAL NI'**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau i'w gweithredu<br><br>**c)** **CYFRIFIAD DIFFIBRILWYR MYNEDIAD CYHOEDDUS UN LLAIS CYMRU 2023**<br>Y clerc i weithredu ar ymateb<br><br>**d)** **DIWEDDARIAD GAN BWYLLGOR GWASANAETHAU AMBIWLANS BRYS AR Y GWASANAETH ADALW A THROSGLWYDDO MEDDYGOL BRYS (GATMB)**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau i'w gweithredu<br><br>**e)** **PWYNTIAU GWEFRU I GERBYDAU TRYDAN**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau i'w gweithredu<br><br>**f)** **STRATEGAETH AR GYFER DENG MLYNEDD NESAF CRONFA TREFTADAETH Y LOTERI GENEDLAETHOL**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau i'w gweithredu<br><br>**g)** **GOLEUADAU TRAFFIG DINAS**<br>Derbyniwyd gohebiaeth gan J Griffiths o Ddinas yn adrodd bod goleuadau traffig yn Ddinas yn fythol wyrdd ym mhob cyfeiriad. Trafodwyd y mater gyda HR oedd yn argymell mae darpar i ddarparu gwaith yw'r rheswm. Adroddodd yr aelodau bod y gwaith bellach wedi ei gwblhau.<br><br>**h)** **NEWYDDION Y GWANWYN AR EIN GWAITH YN ATGYFNERTHU'R CYSYLLTIAD RHWNG PENTIR A THRAWSFYNYDD**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau i'w gweithredu<br><br>**i)** **ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau i'w gweithredu<br><br>j) **BWLETIN NEWYDDION UN LLAIS CYMRU**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau i'w gweithredu |
| 10. | **MATERION LLEOL / AELODAU** |
| | 1) GW - Adroddodd GVT ei fod wedi derbyn cwyn gan Glwb Cerdded Tyn Llan bod camfa Bryn Bach Rhosgadfan wedi ei rwystro. Adroddodd y clerc bod y Swyddog llwybrau yn ymwybodol o hyn ond gan fod y llwybr yn disgyn I gategori 4 gyda llwybr neilltuol yn arwain i'r ryn lle ni fydd yn cael sylw yn fuan.<br><br>2) NE - Adroddodd bod yr iâr oedd wedi ei hongian ar y llwybr Waun Bant bellach wedi cael ei thynnu ond bod cwnginen nawr wedi cymryd ei lle. Y clerc i gysylltu ymhellach gyda'r Swyddog Llwybrau.<br><br>3) TE – Cais am safle Bws ychwannegol am Bwllheli ger Pitian Patian – Y clerc I weithredu.<br><br>4) TE - Argymell I lythyru a Llywodraeth Cymru I gwyno am oleuadau marchogaeth yn Llanwnda - Y clerc i weithredu.<br><br>5) Y clerc - Cyflwr gwael y lon heibio Llwyn, Rhosgadfan - Y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir.<br><br>6) GVT - Arwydd Digidol Cyflymder Rhosgadfan –<br>Yn dilyn gwybodaeth newydd wedi ei dderbyn gan AHR am arwyddion cyflymder gofynnod os fydd posib I AHR wneud ymholiadau ar gyfer tynnu'r arwydd diffygiol |

| | |
|---|---|
| | 7) AHR - Ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Rhosgadfan<br><br>• wyau yn cael ei daflu at ffenestri ac ar geir<br>• drychau ceir yn cael ei dinistrio a cheir yn cael eu dinistrio<br>• poteli gwin yn y cae chwarae<br>• blodau yn cael ei dinistrio ar y ffordd<br><br>Adroddodd y clerc bod cymydog hefyd wedi adrodd bod teiars ei fan wedi cael ei dinistrio Ychwanegodd GVT bod problem gyda chyffuriau yn y pentref hefyd.<br><br>Adroddodd AHR bod yr heddlu yn ymwybodol o'r cyfan ond nid oedd ganddo ddiweddariad i'w gynnig. Bydd yn cyfarfod gyda'r PCSO newydd i Benygroes mewn pythefnos yng Nghae Gors. Mae wedi gwneud cais i gael PSCO ar droed i'r ardal erbyn mis Ebrill. Nid oedd GVT yn teimlo bod digon yn cael ei wneud gan yr heddlu. Bydd y Prif Arolygydd yn mynychu Fforwm Ardal Gwyrfai yfory a bydd yn codi'r pryderon yn ystod y cyfarfod. |
| 11. | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | **19 o Ebrill – Neuadd Rhostryfan – 6yh I'r Pwyllgor Cyllid – 7yh Aelodau'r Cyngor** |